Y Ganolfan
Dysgu Cymraeg
Genedlaethol

Cylchlythyr Tiwtoriaid

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

CYMRAEG
Dysgu
Learn

Croeso

Croeso i'r cylchlythyr cyntaf i diwtoriaid. Mae'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol bellach yn ei hail flwyddyn ac mae miloedd o ddysgwyr wedi cofrestru am y tro cyntaf, ac eraill yn parhau ar gyrsiau Cymraeg ledled Cymru.

'Dyn ni'n gwerthfawrogi'r gwaith sy'n digwydd ar draws Cymru, y tu fewn a thu allan i'r dosbarth. Mae nifer o brosiectau ar y gweill, o gynllun newydd 'Siarad' a dathlu gŵyl Ar Lafar am yr ail flwyddyn, i gystadlaethau i ddysgwyr yn yr Eisteddfod Genedlaethol a Gwobrau Ysbrydoli! y Sefydliad Dysgu a Gwaith.

Mae eich gwaith chi fel tiwtoriaid yn cyfrannu'n helaeth at ddenu, meithrin a chreu siaradwyr Cymraeg. Mae croeso i chi gysylltu â ni ar marchnata@dysgucymraeg.cymru neu ffoniwch 0300 3234324 os oes gennych unrhyw gwestiynau neu sylwadau.

Hawys Roberts
Prif Swyddog Cyfathrebu y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol
hawys.roberts@dysgucymraeg.cymru

Ar Lafar

Gŵyl i ddysgwyr a'u teuluoedd yw 'Ar Lafar', sy'n cael ei chynnal ddydd Sadwrn, 21 Ebrill ar y cyd rhwng y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol, Amgueddfa Cymru a Llyfrgell Genedlaethol Cymru. Bydd gweithgareddau amrywiol ar gael ar bedwar safle o amgylch Cymru: Amgueddfa Genedlaethol y Glannau, Abertawe; Amgueddfa Werin Cymru, Sain Ffagan; Amgueddfa Lechi Cymru, Llanberis a'r Llyfrgell Genedlaethol yn Aberystwyth. Bydd pecyn newydd o adnoddau i ddysgwyr sy'n ymweld â Sain Ffagan yn cael ei lansio. Bydd yr adnoddau ar gael ar-lein i bob tiwtor.

Ar Lafar

Gŵyl Gymraeg i Ddysgwyr

Welsh Learners' Festival

Drama Y Tad: 21 Chwefror – 16 Mawrth

Os dych chi'n dysgu dosbarthiadau Uwch, byddwch chi wedi derbyn dwy wers gyfoes i'w cyflwyno yn eich gwersi hyd yn hyn – un ar y gyfres deledu Un Bore Mercher ac un yn hyrwyddo Dydd Miwsig Cymru. Gwers i baratoi dysgwyr ar gyfer cynhyrchiad diweddaraf y Theatr Genedlaethol, Y Tad, yw'r wers nesaf. Drama sy'n ymdrin â phwnc dementia yw hon. Mae'r adnoddau ar gael ar wefan y Ganolfan Genedlaethol. Gellir cael rhestr gyflawn o'r daith trwy ddilyn y linc yma.

Safle Rhyngweithiol

Mae bellach yn bosib archebu cwrs a thalu ar-lein ar y Safle Rhyngweithiol newydd, www.dysgucymraeg.cymru Byddwn hefyd yn cyflwyno diwyg newydd i'r Safle o fewn yr wythnosau nesaf. Diolch i bawb am helpu eu dysgwyr gyda'r cofrestru – cofiwch, os oes unrhyw gwestiynau neu sylwadau, mae croeso mawr i chi gysylltu â ni ar marchnata@dysgucymraeg.cymru



Fideo newydd

Mae'r dolenni isod i fideo newydd sydd wedi ei lunio er mwyn ein cynorthwyo i esbonio lefelau dysgu yn well i ddysgwyr a darpar ddysgwyr sy'n ymweld â'r Safle. Mae'r fideo ar gael ar ein Safle.



Cliciwch yma am Gymraeg:

Cliciwch yma am Saesneg:

Os hoffech chi rannu'r fideo ar y cyfryngau cymdeithasol, defnyddiwch y dolenni yma.

- **Fersiwn .MOV**
- **Fersiwn ar Vimeo**

Pecyn Llyfrau Dysgwyr

Mae Cyngor Llyfrau Cymru'n ariannu 20 o lyfrau newydd ar gyfer dysgwyr – pump yr un ar lefelau Mynediad, Sylfaen, Canolradd ac Uwch 1. Mae'r llyfrau yn cyd-fynd â'r cyrsiau cenedlaethol newydd, sy'n cael eu cyflwyno fis Medi nesaf. Bydd yn bosib darllen y llyfr Mynediad cyntaf ar ôl cwblhau wyth uned yn unig o'r cwrs – y gobaith, felly, yw y bydd hyn yn annog dysgwyr i droi at ddarllen yn gynnar iawn ar eu taith iaith. Cyhoeddir y llyfrau cyntaf ar 1 Ebrill a bydd y pecyn cyfan ar gael cyn diwedd y flwyddyn.

Clwb Cwtsh

Mae'r Ganolfan Genedlaethol a Mudiad Meithrin yn cydweithio i gyflwyno cyrsiau blasu Cymraeg newydd ar gyfer teuluoedd. Enw'r rhaglen o gyrsiau yw 'Clwb Cwtsh' a bydd yn cyflwyno teuluoedd i eirfa ac ymadroddion sy'n berthnasol i fagu plant ifanc. Bydd dysgwyr yn cael eu hannog i ddefnyddio'u Cymraeg gyda'u plant o'r cychwyn cyntaf. Mae disgwyl y bydd hyd at 600 o ddysgwyr yn dilyn 50 cwrs 'Clwb Cwtsh'. Ar ôl cwblhau'r cwrs, bydd dysgwyr yn cael eu hannog i ddilyn cyrsiau pellach. Ewch i wefan y Mudiad am fwy o wybodaeth.

Clwb Cwtsh
meithrin.cymru/clwbcwtsh

Siarad

Cynllun i baru siaradwyr rhugl gyda dysgwyr yw Siarad. Y nod yw codi hyder dysgwyr trwy roi cyfle iddynt sgwrsio yn y Gymraeg a'u cyflwyno i weithgareddau hamdden a diwylliannol Cymraeg yn eu hardaloedd. Bydd pedwar o ddarparwyr y Ganolfan Genedlaethol – Dysgu Cymraeg Morgannwg, Dysgu Cymraeg Gwent, Dysgu Cymraeg Sir Benfro a Dysgu Cymraeg Gogledd Orllewin – yn peilota'r cynllun yn y lle cyntaf. Mae mwy o wybodaeth yma.

Y Gynhadledd Genedlaethol

Cynhelir y Gynhadledd Genedlaethol eleni yn Nant Gwrtheyrn ar ddydd Sadwrn, 28 Ebrill. David Heathfield fydd y prif siaradwr eleni. I ddysgu mwy amdano fe, dilynwch y ddolen yma

Penwythnos Glan-llyn

Yn sgil llwyddiant penwythnos Cymraeg i'r Teulu, Llangrannog gofynnodd nifer o ddysgwyr am gael penwythnos tebyg, i oedolion yn unig. Felly, bydd penwythnos yng Ngwersyll Glan-llyn rhwng 4-6 Mai eleni. Mae manylion y penwythnos i'w gweld ar dudalen Dysgu Cymraeg Gogledd Orllewin ar y Safle Rhyngweithiol.

Yr Eisteddfod Genedlaethol - Dysgwr y Flwyddyn

Oes modd i chi dynnu sylw eich dysgwyr profiadol at gystadleuaeth Dysgwr y Flwyddyn os gwelwch yn dda? Y dyddiad cau yw 31 Mawrth. Mae ffurflen gais ar wefan yr Eisteddfod Gallwch hefyd gysylltu â swyddfa'r Eisteddfod ar 0845 4090 300 am gopi caled, sy'n rhan o lyfryn arbennig i ddysgwyr. Mae manylion yr holl gystadlaethau i ddysgwyr ar gael ar wefan yr Eisteddfod ac yn y llyfryn. Ewch ati i annog eich dysgwyr i gystadlu.

Gwobrau Addysg Oedolion 2018
Ysbrydoli!™ Inspire!™
Adult Learning Awards 2018

Gwobrau Ysbrydoli!

Mae'r Sefydliad Dysgu a Gwaith yn cynnig categori ar gyfer dysgwyr Cymraeg fel rhan o'u Gwobrau Ysbrydoli! eleni. Bydd y wobr yn cydnabod unigolyn sydd wedi dechrau dysgu Cymraeg ac sydd ar gwrs Mynediad neu Sylfaen ar hyn o bryd – nid oes disgwyl i enillydd y wobr fod yn rhugl. Y dyddiad cau ar gyfer enwebu yw 16 Mawrth a gellir cael manylion llawn, gan gynnwys ffurflen enwebu trwy ddilyn y linc yma.

Dyddiad Cau Cofrestru i'r Arholiadau

Cofiwch fod dyddiad cau olaf cofrestru i sefyll yr arholiadau Cymraeg i Oedolion ar 23 Chwefror 2018! Gwnewch yn siŵr fod eich dysgwyr wedi cofrestru gyda'r ganolfan arholi erbyn y dyddiad hwn. Cliciwch yma i weld y llyfrynnau i ymgeiswyr, manylebau a fideos enghreifftiol o'r profion Siarad ar wefan CBAC.



Y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol
Heol y Coleg
Caerfyrddin
SA31 3EP

Ffôn: 0300 3234324

marchnata@dysgucymraeg.cymru

dysgucymraeg.cymru

@dysgucymraeg